# PWYLLGOR PENSIYNAU, 09.03.12

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd W. Tudor Owen (Is-gadeirydd yn y Gadair).

Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Trevor Edwards

**Aelodau Cyfetholedig:-** Y Cynghorydd Margaret Lyon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a'r Cynghorydd Tom Jones (Cyngor Sir Ynys Môn)

**Swyddogion:-** Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Simon Glyn, Keith Greenly-Jones, John G. Jones, John W. Jones

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff hwn yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag unigolion penodol a bod gan yr unigolion hynny hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad, mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig ac yn gorbwyso unrhyw fudd cyhoeddus o'i ddatgelu.**

## 3. PENODI RHEOLWYR BUDDSODDI I FFRAMWAITH

Yn dilyn ymgynghoriad gydag aelodau'r pwyllgor a gan ddefnyddio ei hawl dan gymal 4.4.1 o'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ei fod wedi gosod pedwar rheolwr buddsoddi i'r fframwaith yn dilyn argymhelliad yr Ymgynghorwyr Buddsoddi sef Baillie Gifford, Veritas, Walter Scott a Wellington.

Cadarnhaodd y pwyllgor y camau a gymerwyd.

## 4. PENODI RHEOLWR BUDDSODDI NEWYDD

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad ar y cwmniau a wahoddwyd i dendro ar gyfer cytundeb buddsoddi a chyfwelwyd y pedwar cwmni.

**PENDERFYNWYD penodi Veritas yn lle Capital International.**

Dechreuodd y cyfarfod am 9.30am a daeth i ben am 3.30pm